COFNODION O GYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB,ARDDYDD LLUN, 30 MEDI 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd JPD Blundell - Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | MJ Williams |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | RJ Collins | P W Jenkins | W J Kendall |
| J E Pratt | G Walter | I Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd MJ Kearn a'r Chyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd Hywel Williams - Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad
Y Cynghorydd Paul Davies - Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

Zak Shell - Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Cymunedol
Jen Sparrow - Rheolwr Strydoedd Glanach a Chytundebau Gwastraff

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell - Rhagfarnol - Aelod Cabinet wrth ystyried Eitem 4.

## 81. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Medi 2024 |

**Enwebwyd y Cynghorydd Martin Williams fel Cadeirydd, a chadeiriodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol yn unig.**

## 82. Opsiynau Gwasanaethau Gwastraff ar gyfer y Dyfodol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad ar gyfer opsiynau darparu Gwasanaethau Gwastraff ar ôl 2026, teimlodd yr Aelodau bod ymchwiliadau pellach dal angen eu gwneud i ddarparu gwybodaeth bellach ar LATco. ac opsiynau Mewnol, yn benodol, mwy o fanylder ar y canlynol, yn cynnwys yr effaith a risgiau cysylltiedig:<br>- Recriwtio staff;<br>- Elw a cholled i'w disgwyl:<br>- Graddfeydd cyflog - gwarchod gweithwyr;<br>- Gwastraff Masnachol a'r farchnad Gystadleuol<br>- Y system TG a manteision ac anfanteision o un system mewn un lle;<br>- Rheolaeth, heriau a hyblygrwydd yr opsiynau.<br><br>Mynegodd aelodau bod angen mwy o amser i archwilio'r opsiynau gydag awdurdodau lleol sy'n agosach i adref sydd wedi dilyn un o'r opsiynau hyn, os yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus, yn enwedig yr opsiwn LATCo, gan fod unrhyw opsiwn yn newid mawr i'r Awdurdod a byddai penderfyniad ar sail yr holl wybodaeth ei angen. |

| | |
|---|---|
| | **Argymhellodd y Pwyllgor estyniad o flwyddyn i'r cytundeb presennol gyda Plan B, i alluogi i fwy o waith gael ei wneud i ddeall yn llwyr yr opsiynau LATCo a Mewnol, graddfa'r risg a'r effaith lawn ar adnoddau.** |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Medi 2024 |

## 83. Adroddiad Gwybodaeth - 2023-24 Perfformiad Chwarter 4

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nodwyd y pwyllgor gyhoeddiad yr adroddiad gwybodaeth ar Berfformiad Chwarter 4 2023-2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Medi 2024 |

## 84. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys yr eitemau isod, nodwyd y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodwyd y byddai adroddiad ar yr FWP, y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu, ar ôl ystyriaeth yn y cylch hwn o Gyfarfodydd Pwyllgor.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r canlynol gael eu cynnwys yn y FWP:<br><br>1. Cododd Aelod eitem bosibl ar gyfer cynnwys y FWP ar barciau mwyaf yn y fwrdeistref, i'w cwmpasu a'u trafod mewn cyfarfod cynllunio blaenraglen y dyfodol.<br>2. Gofynnodd aelodau i'r Diweddariad am Ailddatblygu Porthcawl a Phafiliwn gael ei raglennu ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, ochr yn ochr ag adroddiad Neuadd y Dref Maesteg. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Medi 2024 |

## 85. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 30 Medi 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.42.